



Gwahoddiad i dendro – cytundeb llawrydd

Cwmpasu potensial y Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar yng Nghymru

Cefndir

Yn haf 2020, sefydlodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru rwydwaith trawssefydliadol, trawsddisgyblaethol [ar gyfer Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar](#) (ECRs) yng Nghymru. Roedd hyn yn dilyn ymgynghori â chydweithwyr ar draws y sector, lle gwnaethom nodi sawl maes lle gallai Cymdeithas Ddysgedig Cymru ychwanegu gwerth at waith presennol prifysgolion a Chrwsibl Cymru.

Mae yna bellach 750 o aelodau yn rhan o'r rhwydwaith, a'r nod yw eu helpu i:

- Ymgysylltu â syniadau creadigol ac ysbrydoledig o flaen y gad ym maes ymchwil ac ymarfer
- Ennill profiadau a sgiliau sy'n cefnogi eu datblygiad proffesiynol a'u proffil
- Datblygu rhwydweithiau cryf a chydweithio ar draws disgyblaethau a sectorau academaidd
- Ymateb ar y cyd i heriau a chyfleoedd pwysig i Gymru

Hyd yn hyn, rydym wedi trefnu dau ddigwyddiad ar-lein ar gyfer y rhwydwaith: seminar ar "Effaith mewn Egwyddor ac Ymarfer" a Dosbarth Meistr Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Denodd y digwyddiadau hyn 80 a 150 o gyfranogwyr yn y drefn honno a chawsant adborth cadarnhaol. Bydd trydydd digwyddiad, yn canolbwyntio ar iechyd meddwl Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar yn cael ei gynnal ym mis Mai.

Mae'r Gymdeithas hefyd yn cyflwyno tair [Medal Dillwyn](#) bob blwyddyn i gydnabod cyfraniadau arbennig gan Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar.

Ehangu gweithgareddau

Rydym wedi cael ein hariannu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i gynnal digwyddiadau pellach ac i ymestyn cyrhaeddiad a phresenoldeb y rhwydwaith. Mae cefnogaeth CCAUC hefyd yn ein galluogi i gwmpasu'r potensial ar gyfer datblygu'r rhwydwaith yn y dyfodol, o bosibl yn Academi Gyrfa Cynnar i Gymru.

Manyleb

Teitl	Cwmpasu potensial rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar yng Nghymru Cymdeithas Ddysgedig Cymru
Nod	Rydym eisiau adroddiad ar statws presennol y Rhwydwaith ac argymhellion ar gyfer ei ddatblygu yn y dyfodol. Bydd angen i'r contractwr ystyried: <ul style="list-style-type: none">• Adborth gan aelodau'r rhwydwaith a rhanddeiliaid, gan gynnwys Cymrodorion y Gymdeithas, prifysgolion yng Nghymru, a Chrwsibl Cymru• Sut y gall y Rhwydwaith ategu a gwella gwaith sefydliadau gydag Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar• Sut y gall y Rhwydwaith ymgysylltu ag ymchwilwyr y tu allan i addysg uwch, h.y. yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a diwydiant



	<ul style="list-style-type: none">• Tueddiadau ehangach a ffactorau amgylcheddol sy'n wynebu Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar (ECRs)• Y potensial i sefydlu Academi Gyrfa Gynnar ar gyfer Cymru* <p>* Byddai'r Academi Gyrfa Gynnar yn strwythur mwy parhaol i gefnogi datblygiad proffesiynol ECRs a rhwydweithiau ar eu cyfer a gallai, o bosibl, ddarparu llwyfan i ECRs ymgysylltu â'r cyhoedd neu ymgysylltu â pholisi. Gallai fod â phroses ethol ffurfiol (e.e. Academi'r Ifanc yr Alban) neu strwythur llacach. Byddwn yn disgwyl i'r contractwr ddadansoddi'r mecanweithiau cymorth presennol ar gyfer ECRs yng Nghymru, ystyried pa fylchau y gallai'r Academi eu llenwi, a gwneud argymhellion i Gymdeithas Ddysgedig Cymru symud ymlaen â'r prosiect hwn.</p>
Methodoleg	Mater i'r contractwr fydd cynhyrchu methodoleg fanwl, ond rydym yn rhagweld y bydd y prosiect yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none">• Dadansoddiad o'r adborth ar y rhwydwaith a gafwyd yn flaenorol gan aelodau a rhanddeiliaid• Grwpiau ffocws, cyfweiliadau a/neu arolygon i gasglu data newydd
Allbwn	Adroddiad, yn seiliedig ar farn aelodau a rhanddeiliaid, sy'n darparu argymhellion tymor byr, canolig a hir ar gyfer gweithredu gan y Gymdeithas. Dylai'r adroddiad hwn ystyried y goblygiadau o ran capasiti staff o fewn y Gymdeithas, os yw'n briodol. Y gynulleidfa ar gyfer yr adroddiad yw: <ul style="list-style-type: none">• Y Cyngor (ymddiriedolwyr) a Phrif Weithredwr Cymdeithas Ddysgedig Cymru• Cyllidwyr posib ar gyfer gweithgareddau arfaethedig yn y dyfodol

Proffil y contractwr

Rydym yn gwahodd mynegiadau o ddiddordeb gan unigolion neu sefydliadau sydd â'r arbenigedd, y sgiliau a'r priodoleddau canlynol:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth gref o'r sector addysg uwch ac ymchwil yng Nghymru a'r DU, a phrofiad o weithio gyda rhanddeiliaid yn y sector
- Profiad o ddefnyddio ystod o ddulliau ymchwil e.e. ymchwil ddesg, cyfweiliadau, grwpiau ffocws
- Y gallu i ddadansoddi a syntheseiddio data perthnasol i gynhyrchu adroddiad gydag argymhellion clir
- Arddull gweithio effeithlon a rhagweithiol
- Sgiliau trefnu rhagorol, sylw i fanylder a'r gallu i weithio i derfynau amser

Disgwylir i'r contractwr gysylltu â Phrif Weithredwr y Gymdeithas a gyda'n Swyddog Datblygu Rhwydwaith (swydd gyferth ag amser llawn 0.6 a rennir gan ddau aelod o staff).

Mynegiadau o ddiddordeb

Os oes gennych ddiddordeb mewn cyflwyno'r prosiect hwn, paratowch fynegiant o ddiddordeb yn amlinellu eich:

- Sgiliau a phrofiad perthnasol, yn cynnwys unrhyw waith tebyg rydych wedi'i wneud o'r blaen



- Eich dealltwriaeth o'r cyd-destun i Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar yng Nghymru
- Methodoleg arfaethedig ar gyfer y prosiect
- Amserlen arfaethedig/nifer y diwrnodau sy'n ofynnol, a datganiad y gallwch chi gwblhau'r gwaith o fewn yr amserlen benodol
- Costau

Rhaid darparu mynegiant o ddiddordeb mewn dogfen Word neu PDF ac ni ddylai fod yn hirach na dwy ochr A4.

Costau

Noder: prosiect ar raddfa fach yw hwn. Cyfanswm y gyllideb sydd ar gael yw **£3,750**, yn cynnwys TAW os yw'n berthnasol. Dylai'r costau a nodwch yn eich mynegiant o ddiddordeb fod yn ffigur cwbl gynhwysol, yn cynnwys eich amser, treuliau, costau gweinyddol ac unrhyw gostau perthnasol eraill.

Oherwydd y raddfa amser fer sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn, ni fydd unrhyw daliadau'n cael eu gwneud nes bydd y gwaith wedi'i gwblhau.

Asesu'r cynigion

Er nad yw hwn yn ymarfer caffael cyhoeddus ffurfiol, byddwn yn asesu pob mynegiant o ddiddordeb yn erbyn pedwar ffactor:

- Gwybodaeth am y dirwedd ymchwil, sefydliadau a chyd-destun Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar yng Nghymru (30%)
- Sgiliau ymchwil a'r fethodoleg arfaethedig (30%)
- Sgiliau trefnu a'r gallu i weithio i derfynau amser (20%)
- Gwerth am arian (20%)

Mae hyn er mwyn sicrhau ansawdd y cyflwyno ar draws y prosiect, ac i wahaniaethu rhwng cynigion cystadleuol.

Amseriadau'r prosiect

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno datganiad o ddiddordeb yw **17.00 ar 10 Mehefin 2021**. Anfonwch eich datganiad o ddiddordeb at Martin Pollard, Prif Weithredwr y Gymdeithas mpollard@lsw.wales.ac.uk. Martin hefyd yw'r pwynt cyswllt ar gyfer unrhyw ymholiadau.

Rydym yn rhagweld y byddwn wedi dyfarnu'r contract erbyn **17 Mehefin** ac y bydd y contractwr yn dechrau ar y gwaith cyn gynted â phosib wedi hynny.

Oherwydd y bydd llawer o bobl yn y sector ymchwil yn cynllunio gwyliau haf, dylai contractwyr ragweld cwblhau unrhyw gyfweiliadau, grwpiau ffocws neu arolygon cyn gynted â phosibl.

Bydd angen cyflwyno'r adroddiad prosiect terfynol i'r Gymdeithas erbyn **30 Medi 2021** fan hwyraf.

Mae croeso i chi rannu'r alwad hon